**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 16 Chwefror 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 133. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies, L S Gibbard, D H Hopkins, E J King, A Pugh, R V Smith a A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod 141 "Cyllideb Refeniw 2023/24".

2) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 146 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 134. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2023.

**135. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**136. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnodd Alec Thraves (Cyngor Undebau Llafur Abertawe) gwestiynau mewn perthynas â Chofnod Rhif 141 “Cyllideb Refeniw 2023/24”.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

**137. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**138. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Adroddiadau am y Gyllideb (llafar)**

Darparodd y Cynghorydd C A Holley adborth ar graffu cyn penderfynu mewn perthynas â'r adroddiadau am y gyllideb.

**139. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2022/23.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2022/2023 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol fel a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 o'r adroddiad a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad yn amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.

3) Bydd y Cabinet yn atgyfnerthu'r angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gorwario ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod mai dim ond drwy ddibynnu'n drwm ar ad-daliad tebygol (sydd ymhell o fod yn sicr), cyllidebau wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a ddelir yn ganolog gan

Lywodraeth Cymru y mae'r gyllideb gyffredinol yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd.

4) Mae'r Cabinet yn cydnabod mai dim ond ceisio'n rhesymol i leihau gorwario y gellir ei wneud yn y flwyddyn bresennol, yn hytrach na'i ddileu, drwy gamau gweithredu adfer penodol gyda disgwyliad clir o ddewisiadau ailseilio 'anodd' i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer rownd gyllideb 2023-24.

**140. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2024/25 - 2026/27.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn manylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024-2025 hyd at 2026-2027 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

2) Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid i wneud mân ddiwygiadau ôl-ddilynol yn ôl y gofyn.

**141. Cyllideb Refeniw 2023/24.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023-2024.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cynigion Cyllidebol yn Atodiad Ch yr adroddiad, ynghyd â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel y nodir yn Adrannau 4.15 a 4.17 yr adroddiad, yn amodol ar y Cynigion ar gyfer Arbedion canlynol sy'n dod i gyfanswm o £901,000 a amlinellwyd yn Atodiad Ch yr adroddiad yn cael eu gohirio, ar sail untro yn unig, am un flwyddyn ariannol ac i'w talu o gyllid wrth gefn:

| Cyfarwyddwr | Pennaeth y Gwasanaeth Cyllideb | Disgrifiad | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| Lleoedd | Gwasanaethau | Rhoi cytundeb creu incwm ar | *75 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diwylliannol | waith yn Adain y Celfyddydau Theatr y Grand | |
| Lleoedd | Gwasanaethau Diwylliannol | Adolygu’r cytundeb contract gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | *100 |
| Lleoedd | Gwasanaethau Diwylliannol | Adolygu'r cytundeb partneriaeth gyda Phwll Cenedlaethol Cymru | *100 |
| Lleoedd | Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Safoni prisiau mewn meysydd parcio nad ydynt yng nghanol y ddinas | *100 |
| Lleoedd | Tai ac Iechyd y Cyhoedd | Datgomisiynu system monitro ansawdd aer *Nowcaster* | *28 |
| Lleoedd | Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas | Adolygu Costau Rhent Marchnad Abertawe | *50 |
| Lleoedd | Gwastraff, Parciau a Glanhau | Cael gwared ar 50% o'r cyllid ychwanegol ar gyfer adnodd brwsio mecanyddol pan fydd dail yn cwympo | *25 |
| Lleoedd | Gwastraff, Parciau a Glanhau | Cael gwared ar gyllid ychwanegol ar gyfer biniau sbwriel newydd | *105 |
| Lleoedd | Gwastraff, Parciau a Glanhau | Adolygu hyd a lled gweithrediadau glanhau | *150 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Deallusrwydd Busnes | Adolygu staff cefnogi’r adrannau Gwasanaethau Democrataidd a Craffu | *86 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Deallusrwydd Busnes | Adolygu'r Uned Gwybodaeth a Llywodraethu a'r Uned Gyfieithu | *75 |

Nodi'r diwygiadau yng nghyfarfod y cyngor ym mis Mawrth 2023 gyda seren yn erbyn y cynigion perthnasol i'w hariannu o'r gyllideb wrth gefn.

2) Cynyddu’r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor o £250,000 i adlewyrchu'r newidiadau i Dreth y Cyngor.

3) Gostwng ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig o £3,000 fel y cynghorwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel eu cyfrifiad terfynol.

4) Ychwanegu £1,095,000 at y cyllid wrth gefn, i'w ddangos fel arian gostyngol net wedi'i dynnu o'r cyllid wrth gefn.

5) Cynyddu Gofyniad y Gyllideb o'r ffigur net a amlinellir ym Mharagraffau 2, 3 a 4 yr adroddiad, neu £1,342,000.

6) Ychwanegu £2,000 at braesept y Cyngor Cymuned a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno ond a dderbynbiwyd fel praesept wedi'i amnewid gan y Swyddog Adran 151.

7) Cynyddu Cyfanswm y Gofyniad gan swm yr uchod (Paragraffau 5 a 6 o'r adroddiad), neu £1,344,000.

8) Ychwanegu £2,000 at Gyfanswm y Gofyniad Ariannu drwy godi praeseptau'r Cyngor Cymuned o'r swm hwnnw.

9) Ychwanegu'r ffigur net uchod (Paragraffau 7 namyn 8 o'r adroddiad), neu £1,342,000 at Gyfanswm y Gofyniad Ariannu ar gyfer Dinas a Sir Abertawe.

10) Nodi cyfanswm y gofyniad ariannu presennol a grybwyllwyd yn Adran 4.6 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2023-2024 (fel y'i diwygiwyd uchod).

11) Yn ogystal ag adolygu cynigion arbed presennol, gwnaeth y Cabinet y canlynol:

    a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad.

    b) Cytunwyd ar lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2023-2024 i'w hargymell i'r cyngor ar lefel wedi'i hamnewid o 5.95% yn lle 4.95%.

12) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

    a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2023-2024.

    b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll treth y cyngor ar gyfer 2023-2024.

## 142. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23- 2027/28.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-2023 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024 - 2027/2028.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-2023 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2023-2024 – 2027-2028 fel y nodir yn Atodiadau A, B C, D, E, F a G yr adroddiad.

**143. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2023/24.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2023/2024 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynigion y gyllideb refeniw fel a nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

**144. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 - 2026/27.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/2023 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024 - 2026-2027.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2022-2023.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2023-2024 – 2026-2027.

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

**145. Adolygiad blynyddol o daliadau (gwasanaethau cymdeithasol) 2022/23.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Gofal adroddiad, sef yr adolygiad blynyddol diweddaraf o daliadau gwasanaethau cymdeithasol, gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhestr arfaethedig o daliadau i'w cymhwyso yn 2023/2024.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn canfyddiadau'r adroddiad adolygiad blynyddol o daliadau.

2) Yn amodol ar gymeradwyo Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/2024, bydd cynnydd chwyddiant o 10% yn cael ei gymhwyso i holl daliadau gwasanaethau cymdeithasol, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023.

3) Yn amodol ar benderfyniad 2, cymeradwyo cyhoeddi'r rhestr o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2023, ar gyfer y flwyddyn 2023/2024.

4) Bydd y Cabinet yn atgyfnerthu'r angen i bolisïau dyled y cyngor gael eu cymhwyso.

## 146. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Clydach | Morrison Frew<br>Sarah Hooke |
| 2) | Ysgol Gynradd Danygraig | Alison Jones |
| 3) | YGG Pontybrenin | Alun Millington |

## 147. Cynllun Cymorth Costau Byw - Cynllun Dewisol Ychwanegol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth o'r pwerau disgresiwn ychwanegol sydd ar gael i'r awdurdod dan Gynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i ddeiliaid tai yr ystyrir bod angen cymorth gyda chostau byw arnynt.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun gorfodol a nodir yn yr adroddiad, a'u bod eisoes wedi'u rhoi ar waith.

2) Nodi manylion y pwerau disgresiwn sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cymorth Costau Byw.

3) Nodi manylion y cynllun dewisol presennol a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet ar 21 Ebrill 2022, ac sydd eisoes wedi'i roi ar waith.

4) Bydd unrhyw drethdalwyr y nodwyd eu bod yn gymwys i gael taliad dan y cynllun dewisol presennol, ond nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer y taliad hwnnw fel sy'n ofynnol erbyn dydd Sul, 19 Chwefror, yn cael unrhyw symiau dewisol sy'n weddill y maent yn gymwys i'w cael yn uniongyrchol i'w cyfrif Treth y Cyngor.

5) Cymeradwyo'r categorïau a'r symiau canlynol fel taliadau dewisol ychwanegol i'w talu dan y Cynllun Cymorth Cost-Byw:

   a) Telir £150 i gyfrif Treth y Cyngor trethdalwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prif gynllun Cynllun Cymorth Costau Byw a oedd, ar 15/2/2022, â hawl i ddiystyriad Treth y Cyngor a ddyfarnwyd mewn perthynas ag/â:

      - Oedolyn â Nam Meddyliol Difrifol sy'n byw yn ei eiddo.
      - Gofalwr ar gyfer oedolyn arall sy'n byw yn yr eiddo, ac nid yw'r oedolyn arall sy'n gofalu am yr eiddo yn bartner iddo.

   b) Telir £150 i gyfrif rhent tenantiaid y cyngor a gafodd eu heithrio o'r prif gynllun Costau Byw oherwydd bod ganddynt eithriad 'Dosbarth N - wedi'i feddiannu gan fyfyrwyr' yn unig ar eu cyfrif Treth y Cyngor.

   c) Telir £150 i gyfrif rhent tenantiaid y cyngor sydd ag ôl-ddyledion rhent ac y nodwyd eu bod yn gymwys ar gyfer prif gynllun y Cynllun Cymorth Costau Byw ond nad oeddent wedi cofrestru ar gyfer y taliad cyn y dyddiad cau o 30 Medi 2022.

   d) Telir £55 i'r holl aelwydydd sy'n meddiannu annedd ddomestig ym Mand Treth y Cyngor E, nad oeddent yn gymwys ar gyfer taliad y prif gynllun Cymorth Costau Byw.

   e) Bydd uchafswm y taliad i un aelwyd o'r Cynllun Cymorth Costau Byw yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys elfennau'r Prif Gynllun a'r Cynllun Dewisol) yn aros ar £300.

**148. Rhoi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Strategaeth a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i roi Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ar waith, a chymeradwyo amlinelliad Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a dull gweithredu gan gynnwys Abertawe fel Awdurdod Arweiniol ar gyfer rhanbarth De-Orllewin Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r gwaith o roi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar waith fel yr amlinellir yn yr adroddiad, gydag Abertawe'n gweithredu fel Awdurdod Arweiniol dros dde-Orllewin Cymru.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gwblhau ac ymrwymo i unrhyw gytundebau priodol rhwng partneriaid awdurdodau lleol yn ôl yr angen i gyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

3) Cymeradwyo cwmpas prosiectau Angori Cronfa Ffyniant Gyffredin Abertawe arfaethedig fel y nodir ym mharagraff 4.6 yr adroddiad.

4) Dirprwyo awdurdod i Arweinydd y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Lleoedd a Phennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas i gymeradwyo dyfarniadau grant allanol dros £25,000.

5) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a'r Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol i gymeradwyo ceisiadau am grantiau allanol hyd at werth £25,000.

6) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol i wneud penderfyniadau ar y prosiectau a gyflwynir yn fewnol yn y Cyngor e.e., mân addasiadau i brosiectau.

7) Cyflwyno adroddiadau RhGA7 pellach i'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ar gyfer prosiectau cyfalaf ychwanegol sy'n deillio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.18 pm

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 February 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 22 February 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 February 2023 |